# DofE Cymru

# LLYSGENHADON IFANC

# Rhaglen 26-27









**Pecyn Recriwtio**

## Beth yw'r Rhaglen Llysgenhadon Ifanc?

Dyma gyfle dros gyfnod o flwyddyn i ddatblygu, ar gyfer cyfranogwyr DofE sy'n frwd dros y Wobr a'i heffaith, o **Fehefin 2026 i Fehefin 2027.**

Byddwch yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi ymarferol, fydd yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau mewn arweinyddiaeth, cyfathrebu a hyder, gan eich helpu i dyfu'n bersonol ac yn broffesiynol wrth ennill profiadau o'r byd go iawn.

Byddwch yn cwrdd â phobl o'r un anian â chi, cewch rannu eich stori DofE a helpu i lywio dyfodol y Wobr yng Nghymru.

Rydym yn chwilio am Lysgenhadon o bob cefndir a phrofiad. Nid oes rhaid i chi fod yn arbenigwr ar lywio, yn bencampwr chwaraeon nac yn arwr gwirfoddoli lleol, dim ond eich bod yn barod i rannu eich stori ac ysbrydoli eraill!


IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU

## Beth i'w ddisgwyl?

Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar 4 maes allweddol;




**Digwyddiadau –** cefnogaeth mewn digwyddiadau DofE a chael rhannu eich profiadau gyda gwahanol gynulleidfaoedd.




**Gweithdai Misol –** sesiynau ar-lein i feithrin sgiliau.




**Creu Cynnwys –** cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol.




**Cyfleoedd i Leisiau Ifanc –** rhoi adborth a helpu i lywio gwaith yr elusen.

## Yr hyn fyddwch yn ei ennill:

- Dillad DofE i gynrychioli’r rhaglen
- Cewch gwrdd â phobl ddylanwadol ac enwog mewn digwyddiadau DofE
- Profiad gwych ar gyfer eich CV/UCAS
- Hyfforddiant, a all gynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl neu Awyr Agored
- Cewch fagu hyder, sgiliau a rhwydwaith

## Gallwch wneud cais os ydych:

- ✓ **rhwng 16-24 oed**
- ✓ **wedi cymryd rhan mewn rhaglen DofE trwy sefydliad yng Nghymru**
- ✓ **yn derbyn caniatâd rhiant/gwarcheidwad os ydych dan 18 oed**
- ✓ **wedi cyflawni 1 lefel o DofE neu bron â gorffen yr Aur**

## Rhagor o wybodaeth

Byddem yn awgrymu neilltuo oddeutu **2 awr** y mis i allu gwneud y mwyaf o'r rhaglen.

Mae'r rhaglen yn hyblyg, felly gallwch gymryd rhan mewn modd sy'n addas i chi a'ch diddordebau, heb unrhyw bwysau i wneud unrhyw beth nad ydych yn gyfforddus ag ef.

Gellir cymryd rhan yn y rhaglen **am ddim** a thelir am unrhyw gostau rhesymol, cyn belled â'n bod yn cytuno ar y rhain gyda chi ymlaen llaw.

## Beth mae ein Llysgenhadon yn ei ddweud?

"Roedd gwneud areithiau o flaen pobl fusnes, chwaraewyr rygbi gwych a phobl ifanc wedi dangos i fi fod gennyf lais ac na ddylwn fod ofn ei ddefnyddio. Rwyf wedi mynd o fod yn ofnus yn gwneud areithiau o flaen fy nosbarth yn yr ysgol, i beidio â bod ofn siarad o flaen 300+ o bobl erbyn hyn."




"Rwyf wedi cael y pleser o gwrdd â rhai o'r esiamplau da gorau, gan gynnwys Olympiaid, a roddodd gyngor sy'n gallu newid bywyd; a Dug Caeredin, a gwrddais dros ginio yn y Senedd. Rwyf wedi cael y cyfle i rwydweithio mewn cyfarfodydd busnes ac wedi cael y pleser o gymhwyso fel Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl gyda Mind England, sy'n ychwanegiad at fy CV."

## Hygyrchedd

Rydym yn awyddus i'r Rhaglen Llysgenhadon Ifanc fod yn hygyrch i bawb. Os oes unrhyw beth a all ei gwneud yn anodd i chi gymryd rhan, dywedwch wrthym yn eich cais. Fe weithiwn ni gyda chi i edrych ar ddatrysiadau a gwneud unrhyw addasiadau rhesymol er mwyn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn hygyrch i chi.

**COFRESTRWCH NAWR**